

# TERFYNOL – 17 Mai 2018

## Hysbysiad Preifatrwydd – Barnardo’s yr Elusen

Croeso i Barnardo’s a diolch am ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd. Ni yw elusen plant fwyaf y DU, ac rydym yn helpu dros 272,000 o blant a’u teuluoedd trwy fwy na 900 o wasanaethau’n genedlaethol.

Mae Barnardo’s yn parhau eich preifatrwydd ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu eich data personol ac i fod yn dryloyw ynglŷn â sut yr ydym yn defnyddio eich data. Byddwn yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data sydd mewn grym ar y pryd. Mae’r Hysbysiad Preifatrwydd hwn, ynghyd â’n Telerau Defnyddio, yn egluro sut yr ydym yn defnyddio unrhyw wybodaeth personol a roddir gennych chi neu a roddir i ni gan drydydd parti.

Trwy ymweld â’n gwefan, trwy ddefnyddio unrhyw un o’n appiau, neu ymateb i bostiadau ar gyfryngau cymdeithasol, rydych yn derbyn ac yn cydsynio i’r arferion a ddisgrifir yn yr Hysbysiad hwn, felly gofynnwn i chi ei ddarllen yn ofalus. Bydd unrhyw newidiadau a wneir i’r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen hon, felly cofiwch wirio o bryd i’w gilydd os ydych chi’n ddefnyddiwr rheolaidd.

Mae’r Hysbysiad Preifatrwydd hwn mewn fformat haenedig fel y gallwch glicio ymlaen i’r meysydd penodol a restrir isod. Neu, gallwch lawrlwytho fersiwn pdf yma. Hefyd mae Geirfa ar gael rhag ofn y byddwn yn defnyddio termau nad ydych yn eu deall.

- 1 Gwybodaeth Bwysig am bwy ydym ni
- 2 Y data personol rydym yn ei gasglu gennych chi, sut yr ydym yn ei gasglu a sut yr ydym yn ei ddefnyddio:
  - a. Pobl sy’n defnyddio ein gwasanaethau neu sy’n darparu lleoliad teulu
  - b. Pobl sy’n ein cefnogi
  - c. Ymwelwyr â’n gwefannau
  - d. Ymgeiswyr am swyddi
  - e. Ein cyflogeion presennol a chyn gyflogeion, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr
- 3 Gweithio â Thrydydd Partïon
- 4 Sut yr ydym yn cadw eich data’n ddiogel
- 5 Lle’r ydym yn storio ac yn prosesu eich gwybodaeth
- 6 Eich hawliau cyfreithiol (gan gynnwys eich hawl i ofyn am gopi o’ch data)
- 7 Geirfa

### 1 Gwybodaeth Bwysig am bwy ydym ni

Mae’r wefan hon yn eiddo i ac yn cael ei gweithredu gan Barnardo’s (Yr Elusen), sydd hefyd yn gweithredu fel y Rheolydd Data.

Mae Barnardo’s yn elusen gofrestredig (cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 216250. Cofrestrwyd yn yr Alban Rhif SC037605) ac mae’n gwmni cyfyngedig trwy warant (61625 Lloegr).

Y swyddfa gofrestredig yw:

Barnardo’s  
Tanners Lane  
Barkingside  
Ilford

Essex  
IG6 1QG

Mae **Swyddog Diogelu Data** (DPO) Barnardo's (DPO), Martine King, yn gyfrifol am ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ynglŷn â'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn. Gellir cysylltu â Martine yn y cyfeiriad uchod, trwy e-bost: [dpo@barnardos.org.uk](mailto:dpo@barnardos.org.uk) neu dros y ffôn: 020 8498 7055

Mae gennych chi'r hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data ([www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)). Fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddelio ag unrhyw beth sy'n eich poeni cyn i chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd, felly mae croeso i chi gysylltu â ni'n gyntaf.

## **Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd a'ch dyletswydd i'n hysbysu ni o newidiadau**

Diweddarwyd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn ddiwethaf ar **17 Mai 2018**.

Mae'n bwysig bod y data personol rydym yn ei gadw amdanoch yn gywir ac yn gyfoes. Gofynnwn i chi ein hysbysu os bydd eich data personol yn newid yn ystod cyfnod eich perthynas â ni.

Gallwn ddiweddarau'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Os byddwn yn gwneud newidiadau sylweddol byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau bod newidiadau wedi'u gwneud.

## **2 Y data personol rydym yn ei gasglu gennych chi, sut yr ydym yn ei gasglu a sut yr ydym yn ei ddefnyddio**

### **2a Pobl sy'n defnyddio ein Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ac sy'n darparu lleoliad teulu**

Mae'r adran hon yn egluro pa wybodaeth mae Barnardo's yn ei chasglu, yn ei chadw ac yn ei storio amdanoch chi a / neu eich teulu os ydych chi'n cael un o'n gwasanaethau, neu os ydych chi'n darparu gofal neu lety â chymorth, a'ch hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth honno. Efallai y cewch chi hefyd wybodaeth gan eich gwasanaeth am yr wybodaeth a gedwir ganddynt hwy a beth sy'n digwydd iddo.

#### **Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu?**

Mae Barnardo's yn cadw gwybodaeth bersonol amdanoch chi a all gynnwys eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad, rhywedd, ethnigrwydd, hunaniaeth rywiol ac a oes gennych chi anabledd, fel y gallwn wneud yn siŵr bod ein gwasanaethau'n diwallu eich anghenion. Byddwn hefyd yn cofnodi gwybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir i chi, gan gynnwys adrodd ar achosion, cynlluniau ac adolygiadau.

Mae Barnardo's yn defnyddio camerâu cylch cyfyng (CCTV) mewn rhai o'i wasanaethau i gadw plant, pobl ifanc a staff yn ddiogel. Os byddwch yn defnyddio un o'r gwasanaethau lle mae hyn yn digwydd byddwn yn dweud wrthyh. Rydym yn cydymffurfio â Chod Ymarfer yr ICO ar y defnydd o CCTV.

#### **Pam yr ydym yn casglu eich gwybodaeth?**

O dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), a Deddf Diogelu Data y DU, rhaid bod gennym reswm cyfreithiol i gadw eich data a'i brosesu. Pan fydd Barnardo's yn darparu gwasanaeth i chi, byddwn yn prosesu eich data o dan fudd cyfreithiol neu dasg gyhoeddus. Rydym yn gwneud hyn am na allwn ddarparu gwasanaeth i chi heb ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol.

#### **Gyda phwy ydym ni'n rhannu eich gwybodaeth?**

Rydym yn rhannu eich data o fewn Barnardo's â phobl sydd angen ei weld er mwyn darparu gwasanaeth i chi. Gallwn hefyd ei rannu â'r sefydliad sy'n talu am eich gwasanaeth neu ag asiantaethau allanol sy'n arolygu ein gwaith. Byddwch yn cael Taflen Wybodaeth am Wasanaeth a

fydd yn rhoi mwy o fanylion i chi. Efallai y bydd yn rhaid i ni rannu eich data ag asiantaethau eraill am resymau cyfreithiol, gorchymyn llys er enghraifft, neu â sefydliadau eraill os ydym yn credu eich bod mewn perygl o niwed neu y gallech niweidio rhywun arall.

Efallai y bydd adegau pan *fyddwn* yn gofyn am eich cydsyniad i ddefnyddio eich data, er enghraifft, i hysbysu'r cyhoedd am ein gwaith. Os mai dyna fydd yr achos, byddwn yn egluro i chi i ba ddiben yn union fydd eich data'n cael ei ddefnyddio. Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg, ac os bydd hynny'n bosibl, bydd unrhyw ran o'ch data a ddefnyddiwyd i ddibenion cyhoeddusurwydd yn cael ei dileu.

### **Pwy sy'n gyfrifol am eich data?**

Y Rheolydd Data sy'n gyfrifol am eich data. Gall hyn fod yn Barnardo's neu'r awdurdod lleol neu'r asiantaeth sy'n ariannu'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan Barnardo's. Cewch ragor o wybodaeth am bwy yw'r Rheolydd Data ar gyfer eich data gan eich darparwr gwasanaeth.

### **Am ba hyd fyddwn ni'n cadw eich data?**

Bydd Barnardo's yn cadw eich data am gyfnod penodedig ar ôl i ni orffen gweithio â chi. Gan ddibynnu ar natur y gwasanaeth a'n rhwymedigaethau cyfreithiol bydd hyn o leiaf 6 blynedd ond gall ymestyn i 100 mlynedd ar gyfer mathau penodol o waith. Byddwch yn cael Taflen Wybodaeth am Wasanaeth a fydd yn dweud wrthych am faint yn union y byddwn yn cadw eich data, a pham.

Weithiau bydd yn ofynnol i Barnardo's drosglwyddo eich data i'r awdurdod lleol sydd wedi ein comisiynu i ddarparu eich gwasanaeth, neu i sefydliad arall sy'n darparu gwasanaeth i chi. Bydd y Daflen Wybodaeth am Wasanaeth yn rhoi mwy o fanylion i chi am yr hyn fydd yn digwydd i'ch data.

### **Sut allwch chi weld eich data? (Cais Mynediad Gwrthrych)**

Gallwch ofyn am gopi o'r wybodaeth mae Barnardo's yn ei chadw amdanoch chi (gweler Yr Hawl i weld eich gwybodaeth bersonol), ond weithiau efallai mai'r awdurdod lleol sy'n talu am eich gwasanaeth fydd yn gyfrifol am gyflenwi'r data hwn i chi. Os mai dyna fydd yr achos, yna dylai'r Daflen Wybodaeth a Wasanaeth ddweud wrthych pwy ddylech chi gysylltu â hwy.

## **2b Pobl sy'n ein cefnogi**

### **Sut ydym ni'n casglu eich gwybodaeth bersonol?**

Rydym yn cael gwybodaeth gennych chi pan fyddwch yn holi am ein gweithgareddau, dod yn ddefnyddiwr gwasanaeth, yn anfon neu'n cael e-bost, yn rhoi rhodd i ni, yn cefnogi ymgyrch, neu'n gofyn cwestiwn am ein gwasanaethau. Weithiau gallwn gael eich gwybodaeth bersonol gan ddarparwyr data trydydd parti, ond dim ond os byddant yn dangos tystiolaeth briodol eich bod wedi cytuno i'ch gwybodaeth bersonol gael ei rhannu â mudiadau eraill.

Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth gyffredinol am y defnydd a wneir o'n gwefannau, fel tudalennau mae pobl wedi ymweld â hwy a manau sydd o fwyaf o ddiddordeb i ddefnyddwyr. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella ein gwefan ac i gynnig profiad gwell i bawb. Gweler adran 2c "Ymwelwyr â'n gwefan"

O bryd i'w gilydd rydym yn cael gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, fel gwybodaeth gyswllt, neu rydym yn ymchwilio i wybodaeth i'n helpu i wneud gwiriadau diwydrwydd dyladwy i sicrhau nad ydym yn cael ein heffeithio gan dwyllwyr neu droseddwyr sy'n cymryd arnynt eu bod yn rhoddwyr, neu i sicrhau nad oes gwrthdrawiad buddiannau o gyfeiriad darpar gefnogwyr neu fudiadau cyn i ni ymgysylltu â hwy. Am ragor o wybodaeth am hyn, gweler yr adran Sut yr ydym yn cyfathrebu â chi isod.

## **Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu?**

Gall yr wybodaeth bersonol rydym yn eich chasglu gynnwys enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhifau ffôn, dyddiad geni, manylion cyfrif banc (i drefnu debyd uniongyrchol rheolaidd neu wybodaeth am daliadau), rhywedd a phrofiad o ymgyrchu (ar gyfer cysylltu â chi i gefnogi ein hymgyrchoedd) a'ch perthnasoedd teuluol (pan fyddwch yn gwneud ymholiad hanes teulu). Mae Cyfraith Diogelu Data yn cydnabod bod categorïau penodol o wybodaeth bersonol sy'n fwy sensitif. Gelwir y rhain yn categorïau arbennig o ddata ac maent yn cynnwys gwybodaeth am iechyd, credoau crefyddol a safbwyntiau gwleidyddol. Nid ydym fel arfer yn casglu categorïau arbennig o ddata am ein cefnogwyr oni bai bod rhesymau amlwg dros wneud hynny fel cymryd rhan mewn digwyddiad rhedeg neu gerdded neu ddigwyddiad codi arian tebyg neu lle mae angen i ni sicrhau ein bod yn darparu cyfleusterau neu gymorth penodol i'ch galluogi chi i gymryd rhan mewn digwyddiad.

## **Su ydym ni'n defnyddio eich data?**

Gallwn ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol i:

- Delio â'ch ymholiadau, ceisiadau a chwynion
- Prosesu eich rhoddion ac archebion a wneir ar-lein neu drwy ein siopau
- Darparu gwybodaeth i chi am ein gwaith, ein gweithgareddau, digwyddiadau a gwasanaethau
- Cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, polisïau a gweithdrefnau, er enghraifft, hawlio Cymorth Rhodd
- Darparu a phersonoleiddio ein gwasanaethau
- Gweinyddu cofnodion aelodau
- Codi arian a marchnata
- Cynnal ymchwil i'r farchnad

## **Gwneud rhoddion neu brynu trwy ein siopau ar y stryd fawr neu ar-lein**

### **Sut ydym ni'n defnyddio eich data?**

Mae data a gesglir gan ein siopau ar-lein yn cael ei ddefnyddio i gymryd a chyflawni archebion ac i weinyddu a gwella'r safle a'r gwasanaeth. Os byddwch yn rhoi eitemau yn ein siopau stryd fawr, a'ch bod yn dalwr treth yn y DU, gallwn ofyn am eich caniatâd i hawlio Cymorth Rhodd ar yr eitemau hynny. Yn yr achos hwn byddwn yn gofyn am eich enw a'ch cyfeiriad.

Os byddwch yn defnyddio eich cerdyn credyd neu ddebyd i roi rhodd i ni, i brynu rhywbeth, neu i dalu am gofrestru ar-lein neu dros y ffôn, byddwn yn sicrhau eich bod yn gallu gwneud hynny'n ddiogel. Ni fyddwn yn storio manylion eich cerdyn credyd neu ddebyd ar ôl cwblhau'r trafodiad. Bydd holl fanylion eich cerdyn yn cael eu dinistrio'n ddiogel cyn gynted ag y bydd y taliad neu'r rhodd wedi'u prosesu.

Mae Barnardo's yn defnyddio CCTV mewn rhai siopau er mwyn cadw staff a chwsmeriaid yn ddiogel. Rydym yn cydymffurfio â Chod Ymarfer CCTC Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

### **Sut yr ydym yn cyfathrebu â chi**

Mae gallu cyfathrebu â chi'n bwysig, gan y bydd eich cefnogaeth yn helpu i drawsnewid bywydau'r plant mwyaf agored i niwed yn y DU. Rydym yn credu mewn bod yn agored, yn onest a thryloyw â'n cefnogwyr ac rydym eisiau i chi deimlo'n gyfforddus â'ch penderfyniad i roi eich gwybodaeth bersonol i ni a sut yr ydym yn ei defnyddio.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni i gyfathrebu â chi ynglŷn â sut yr ydym yn trawsnewid bywydau'r plant mwyaf agored i niwed yn y DU trwy waith ein gwasanaethau a'n harbenigedd mewn ymchwil. Hoffem hefyd ddweud wrthy'ch chi sut mae eich cefnogaeth yn helpu ac am ffyrdd eraill o helpu yn y dyfodol, boed hynny drwy wirfoddoli, digwyddiadau neu godi arian. O bryd i'w gilydd gallwn hefyd anfon gwybodaeth am ein hapeliadau atoch yn gofyn am rodd i helpu i newid bywydau plant.

Rydym yn addo mai dim ond yn y ffyrdd o'ch dewis chi y byddwn yn cyfathrebu â chi a byddwn bob amser yn parchu eich preifatrwydd. Gallwch newid eich meddwl ar unrhyw adeg ac mae'n rhwydd a chyflym i roi gwybod i ni os nad ydych chi eisiau clywed gennym eto trwy ffonio:

Y Tîm Cysylltiadau Cefnogwyr ar **0800 008 7005**

Neu gallwch anfon e-bost atom yn [supporterrelations@barnardos.org.uk](mailto:supporterrelations@barnardos.org.uk).

Byddwn bob amser yn ymateb i'ch dymuniadau mewn ffordd sensitif, brydlon, gwrtais a phroffesiynol.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl y byddwn yn cymryd camau priodol i gadw eich gwybodaeth bersonol yn saff a diogel ac rydym yn addo na fyddwn yn cysylltu â chi'n amlach na'r angen. Ni fyddwn byth yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â mudiadau eraill er mwyn iddynt ei defnyddio i'w dibenion marchnata eu hunain.

Mewn rhai achosion mae Barnardo's yn casglu gwybodaeth ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol trwy ddibynnu ar y rheswm budd cyfreithiol. Gwneir hyn, er enghraifft, pan fyddwch yn gwneud cais i gael gwasanaethau neu nwyddau gennym, mae gennym fudd cyfreithiol sefydliadol i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol i ymateb i chi ac nid oes dim niwed sylweddol i chi o ganlyniad i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol i'r diben hwn. Byddwn yn rhoi'r dewis bob amser i chi i optio allan rhag clywed gennym. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, rydym yn dibynnu ar gael eich cydsyniad i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol. Er enghraifft, pan fyddwn yn ceisio cael eich cydsyniad i dderbyn negeseuon marchnata e-bost gan Barnardo's.

Dim ond yn y ffordd rydych wedi dweud wrthym am wneud y byddwn yn cyfathrebu â chi.

### **Marchnata negeseuon e-bost / testun**

Os ydych chi wedi rhoi eich cydsyniad bwriadol i ni ynghyd â'ch cyfeiriad e-bost a / neu eich rhif ffôn symudol, gallwn gysylltu â chi i ddibenion marchnata trwy e-bost neu neges destun. Trwy danysgrifio i negeseuon e-bost Barnardo's neu optio i mewn i ohebiaeth e-bost gan Barnardo's rydych yn rhoi'r hawl i ni i ddefnyddio'r cyfeiriad ar gyfer marchnata e-bost.

### **Marchnata post / ffôn**

Os ydych chi wedi rhoi eich cyfeiriad post neu rif ffôn i ni, gallwn anfon gohebiaeth uniongyrchol atoch neu eich ffonio i ddweud wrthy'ch chi am ein gwaith oni bai eich bod wedi dweud wrthym y byddai'n well gennych beidio cael gwybodaeth o'r fath, neu ein bod wedi cael hysbysiad gan y Fundrasing Preference Service yn dweud eich bod wedi gofyn i ni roi'r gorau i anfon gohebiaeth farchnata atoch. Byddwn hefyd yn gwirio rhifau ffôn yn erbyn y Telephone Preference Service (TPS) ac ni fyddwn yn eich ffonio oni bai bod eich rhif ffôn wedi'i restru ar y TPS, os ydych chi wedi dweud wrthym yn benodol nad ydych chi'n gwrthwynebu i alwadau o'r fath ac wedi cydsynio i'w cael gan Barnardo's.

### **Eich penderfyniad chi**

Chi fydd yn penderfynu bob amser a ydych chi eisiau cael gwybodaeth am ein gwaith, sut yr ydym yn codi arian a sut y gallwch chi fod yn rhan o hynny. Os nad ydych chi eisiau i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol yn y ffyrdd hyn, nodwch eich hoffterau ar y ffurflen yr ydym yn ei defnyddio i gasglu eich data.

Gallwch optio allan o'n gohebiaeth farchnata ar unrhyw adeg trwy glicio ar y ddolen 'datdanysgrifio' ar ddiwedd ein negeseuon e-bost marchnata neu anfon neges destun "opt-out" gan ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir gennym yn ein neges destun gyntaf.

Gallwch hefyd newid unrhyw rai o'ch hoffterau cyswllt ar unrhyw adeg, gan gynnwys dweud wrthym nad ydych chi am i ni gysylltu â chi i ddibenion marchnata, trwy ffonio:

Y Tîm Cysylltiadau Cefnogwyr ar **0800 008 7005**

Neu anfon e-bost atom yn [supporterrelations@barnardos.org.uk](mailto:supporterrelations@barnardos.org.uk).

Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i ddibenion marchnata os ydych chi wedi dweud wrthym nad ydych chi eisiau i ni gysylltu â chi i ddibenion o'r fath. Fodd bynnag, byddwn yn cadw eich manylion ar restr eilaidd i helpu i sicrhau nad ydym yn dal i gysylltu â chi.

### **Personoleiddio a phroffilio**

Byddwn hefyd yn ymgymryd â gweithgarwch codi arian ac ymgyrchu wedi'u targedu i sicrhau ein bod yn cysylltu â chi â'r ohebiaeth fwyaf priodol; sy'n berthnasol ac amserol ac a fydd yn y pen draw yn arwain at well profiad i chi. Er enghraifft, trwy ddarparu newyddion amserol am ein gwaith, rhoi gwybod i chi am y gwahanol ffyrdd o'n cefnogi a sut y gallwch ein helpu i godi arian.

Er mwyn gwneud hyn, gallwn hefyd ddefnyddio technegau proffilio, a gallwn gyflogi cwmnïau pwrpasol i ddarparu gwybodaeth gyffredinol amdanoch chi, yr ydych wedi'i rhoi o'ch gwirfodd, am eich ffordd o fyw a'ch arferion prynu. Bydd hyn yn ein helpu i addasu ein gohebiaeth fel y byddwch yn clywed am y meysydd hynny o'n gwaith sydd fwyaf o ddiddordeb i chi, h.y. gwirfoddoli, digwyddiadau, ac ymchwil a sut mae eich cefnogaeth yn helpu i drawsnewid bywydau rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yn y DU.

Gallwn hefyd ddefnyddio'r wybodaeth bersonol rydym wedi'i chasglu amdanoch yn ystod ein perthynas i ddeall pa mor debyg ydych chi o ymateb i ohebiaeth codi arian gennym, gan roi rhodd o bosibl ac mewn rhai achosion rhoi rhoddion neu ein cefnogi ar lefel uwch. Gan fod gennym ddealltwriaeth well ohonoch chi, y gobaith yw y bydd ein gohebiaeth yn fwy perthnasol a diddorol i chi ac y bydd hynny yn ei dro'n ein helpu i leihau ein costau cyfathrebu trwy gysylltu â'r cefnogwyr hynny'n unig sy'n dymuno clywed gennym. Er mwyn ein helpu â'r gwaith hwn gallwn ddefnyddio darparwyr trydydd parti i'n cynorthwyo yn y broses hon. Am ragor o wybodaeth am sut yr ydym yn gweithio â thrydydd partiön, gweler 'Datgeliadau'.

Gallwch ddewis optio allan os nad ydych chi am i'ch data gael ei ddefnyddio i broffilio. Fodd bynnag, gallai hynny olygu na fyddwch wedyn yn cael gohebiaeth farchnata berthnasol gennym neu y byddant yn fwy cyffredinol ac yn llai perthnasol i chi gan na fyddant bellach yn seiliedig ar eich diddordebau yn ein hachos. Os ydych chi'n dymuno optio allan, cysylltwch â:

Y Tîm Cysylltiadau Cefnogwyr ar **0800 008 7005**

Neu anfon e-bost atom yn [supporterrelations@barnardos.org.uk](mailto:supporterrelations@barnardos.org.uk)

### **Datgeliadau**

Ni fyddwn byth yn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i sefydliadau eraill i gael ei defnyddio i'w dibenion marchnata eu hunain.

Fodd bynnag, gallwn ddatgelu eich gwybodaeth bersonol yn yr amgylchiadau canlynol:

- I drydydd partïon sy'n darparu gwasanaeth i ni ac sy'n brosesyddion data. Byddai hyn yn cynnwys y partneriaid rydym yn ymddiried ynddynt sy'n gweithio â ni mewn cysylltiad â'n dibenion elusennol, ac endidau eraill sy'n gweithredu fel codwyr arian i Barnardo's, sy'n gwerthu nwyddau Barnardo's neu sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth a marchnata i Barnardo's (yn amodol ar eich hoffterau cyfathrebu a'n polisiau a'n gweithdrefnau mewnol ni). Rydym yn mynnu bod y trydydd partïon hyn yn glynu'n gaeth wrth ein cyfarwyddiadau a Deddfau Diogelu Data a byddwn yn gwneud yn siŵr bod gennym reolaethau priodol ar waith. Rydym yn llunio contractau â phob un o'n prosesyddion data ac yn monitro eu gweithgarwch yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisiau a gweithdrefnau Barnardo's.
- Pan fydd dyletswydd arnom i ddatgelu eich gwybodaeth bersonol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith neu bod y datgeliad yn 'angenrheidiol' i ddibenion diogelwch gwladol, trethiant ac ymchwiliad troseddol neu ein bod wedi cael eich cydsyniad ysgrifenedig.
- Pan fydd angen i ni wneud gwiriadau diwydrwydd dyladwy i sicrhau nad ydym yn cael ein heffeithio gan dwyllwyr na throseddwyr sy'n cymryd arnynt eu bod yn rhoddwyr dilys a all, er enghraifft fod yn gwyngalchu enillion a gafwyd trwy osgoi talu treth yn anghyfreithlon. Rydym yn gwneud y gwiriadau hyn i helpu i'n hamddiffyn rhag troseddau.

### **Marchnata i Blant**

Rydym wedi ymrwymo i warchod preifatrwydd pobl ifanc sydd mewn cysylltiad â ni trwy ein gwefan, digwyddiadau codi arian, deunyddiau marchnata a rhestrau cyfathrebu.

Mae ein digwyddiadau codi arian hefyd yn gofyn am wybodaeth penodol am oedran y cyfranogwyr. Rhaid i bawb o dan 16 oed gael caniatâd rhiant neu warcheidwad cyn cymryd rhan mewn digwyddiad a drefnir gan Barnardo's. Bydd y rhaid i blant 13 oed neu iau sy'n dymuno cymryd rhan roi cyfeiriad e-bost rhiant neu warcheidwad i ni cyn y gallant gymryd rhan. Byddwn wedyn yn cysylltu â'r rhiant neu warcheidwad i ofyn am eu caniatâd i gyfathrebu â'r plentyn.

### **Polisi Cefnogwyr Agored i Niwed**

Rydym wedi ymrwymo i amddiffyn cefnogwyr agored i niwed. Gweler ein Polisi Cefnogwyr Agored i Niwed.

### **Cadw eich gwybodaeth bersonol**

Rydym yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyhyd ag y bydd angen i redeg y gwasanaeth yn unol â gofynion cyfreithiol a rheolau treth a chyfrifyddu. Os na fydd angen eich gwybodaeth mwyach, byddwn yn sicrhau ei bod yn cael ei dinistrio mewn modd diogel.

### **Gwefannau eraill**

Gall ein gwefan gynnwys dolenni i wefannau eraill sydd y tu hwnt i'n rheolaeth ni ac nid yw'r rhain wedi eu cynnwys yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn. Os byddwch yn mynd i un o'r gwefannau hyn drwy ddefnyddio'r dolenni a ddarperir gall gweithredwyr y safleoedd hyn gasglu gwybodaeth

gennych ac a all gael ei defnyddio ganddynt yn unol â'u hysbysiad preifatrwydd hwy ac mi all hwnnw fod yn wahanol i'n un ni.

## **Negeseuon Testun i Roi**

Rydym yn cynnig negeseuon testun i roi sy'n ffordd hawdd a chyflym i roi rhodd i Barnardo's. Am ragor o wybodaeth gweler ein [telerau ac amodau negeseuon testun roi](#).

### **2c Ymwelwyr â'n gwefannau**

Weithiau bydd Barnardo's yn anfon ffeiliau data bychain, a elwir yn cwcis, o'n gwefannau i'ch cyfrifiadur, ffôn symudol neu ddyfais arall. Mae'r cwcis hyn wedyn yn cael eu storio ar yr iant caled eich dyfais. Mae rhai o'r cwcis yn ein galluogi i gyfrif ymwelwyr a ffynonellau traffig i'n galluogi i fesur a gwella perfformiad ein safle. Maent yn ein helpu i wybod pa dudalennau yw'r mwyaf a'r lleiaf poblogaidd a gweld sut mae ymwelwyr yn symud o gwmpas y safle. Nid yw'r data a gesglir yn cael ei rannu ag unrhyw drydydd parti. Mae'r wybodaeth a gawn trwy ddefnyddio'r cwcis hyn yn ddiennw ac nid ydym yn gwneud unrhyw ymdrech i geisio eich adnabod nac i ddylanwadu ar eich profiad o'r safle pan fyddwch yn ymweld ag ef. Os na fyddwch yn caniatáu'r cwcis hyn ni fyddwn yn gallu cynnwys eich ymweliad dienw yn ein hystadegau.

Rydym yn defnyddio cwcis ar ein safle siopa i gadw golwg ar gynnwys eich basged siopa, i storio cyfeiriadau danfon os yw'r llyfr cyfeiriadau'n cael ei ddefnyddio ac i storio eich manylion os byddwch yn defnyddio'r opsiwn 'Cofiwch Fi'. Cânt eu defnyddio hefyd ar ôl i chi fewngofnodi fel rhan o'r broses honno.

Trwy ddefnyddio'r safle hwn, rydych yn cytuno i ni osod cwcis ar eich dyfais. Am restr o'r cwcis a ddefnyddir ar y safle hwn, gweler ein Polisi Cwcis.

Gallwch reoli a / neu ddileu cwcis fel y mynnwch neu ddileu cwcis a osodwyd gan y safle – am ragor o fanylion, gweler [www.allaboutcookies.org](http://www.allaboutcookies.org). Gallwch ddileu'r holl gwcis sydd eisoes ar eich cyfrifiadur a gosod y rhan fwyaf o borwyr i'w hatal rhag cael eu gosod. I wneud hynny dylech addasu gosodiadau eich porwr, cliciwch ar yr adran help ar eich porwr a dilynwch y cyfarwyddiadau. Fodd bynnag, os byddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd yn rhaid i chi addasu rhai hoffterau bob tro y byddwch yn ymweld â'r safle ac efallai na fydd rhai ffwythiannau'n gweithio.

Yn ystod eich ymweliadau â'n safle efallai y gwelwch rai cwcis nad ydynt yn gysylltiedig â Barnardo's. Dylech wirio safleoedd trydydd parti am ragor o wybodaeth am y rhain.

### **2d Ymgeiswyr am swyddi – Rolau Cyflogedig, Gwirfoddol ac Ymddiriedolwyr**

Fel rhan o unrhyw broses recriwtio, mae Barnardo's yn casglu ac yn prosesu data personol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi. Os byddwch yn ymgeisio am rôl â Barnardo's, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni i brosesu eich cais ac i fonitro ystadegau ymgeisio'n unig.

#### **Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu?**

Byddwn yn casglu amrywiaeth o wybodaeth amdanoch, gan gynnwys:

- Eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeirid e-bost a rhif ffôn;
- Manylion am eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth;
- Gwybodaeth am eich cyflog presennol;
- A oes gennych chi anabledd a fyddai'n golygu bod angen i ni wneud addasiadau rhesymol yn ystod y broses recriwtio;
- Gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y DU; a
- Gwybodaeth monitro cyfle cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, iechyd, a chrefydd neu gred. Ni fyddwn yn casglu'r wybodaeth hon heb eich cydsyniad penodol, a byddwch yn gallu ei dynnu'r cydsyniad hwnnw'n ôl ar unrhyw adeg.

### **Sut ydym ni'n casglu eich data personol?**

Rydym yn ei gasglu mewn amryw o ffyrdd. Er enghraifft, efallai eich bod wedi llenwi ffurflen gais, neu wedi cyflwyno CV neu fanylion eich gyrfa, efallai eich bod wedi rhoi manylion eich pasbort neu ddogfennau adnabod eraill, neu gallwn fod wedi casglu eich gwybodaeth trwy gyfweiliadau neu fath arall o asesiad, fel profion ar-lein.

Gallwn hefyd gasglu gwybodaeth amdanoch gan drydydd parti, fel geirdaon a gyflenwyd gan gyn gyflogwyr. Ni fydd Barnardo's yn gofyn i drydydd parti am wybodaeth amdanoch cyn i ni wneud cynnig i chi. Yr eithriad fydd ar gyfer rolau mewn ysgolion lle bydd angen i ni gael geirdaon cyn y cyfweiliad. Ym mhob achos, bydd y broses ymgeisio yn datgan yn glir ar ba adeg y byddwn yn cysylltu ag unrhyw drydydd parti.

### **Lle fyddwn ni'n cadw eich data?**

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei storio, yn ddiogel, mewn sawl lle: ar gofnod eich cais, yn ein system recriwtio a Dethol; ein systemau rheoli adnoddau dynol ac ar systemau TG eraill.

### **Pam fod angen eich data personol arnom?**

Mae angen i ni brosesu eich data er mwyn llunio cytundeb gweithio â chi. Mewn rhai achosion mae angen i ni brosesu eich data i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, e.e. gwirio hawl unigolyn i weithio yn y DU.

Mae gennym fudd cyfreithiol mewn prosesu eich data personol yn ystod y broses recriwtio ac mewn cadw cofnodion o'r broses. Mae'n ein galluogi i reoli'r broses honno, i asesu a chadarnhau eich bod yn addas ar gyfer y rôl a phenderfynu pwy fydd yn cael cynnig y rôl. Efallai y bydd angen i ni hefyd brosesu data ymgeiswyr am swyddi i ymateb i, ac i amddiffyn yn erbyn, hawliadau cyfreithiol. Pan fyddwn yn dibynnu ar fudd cyfreithiol fel rheswm dros brosesu data, rydym wedi ystyried a yw'r rhesymau hynny'n drech na hawliau a rhyddid yr ymgeisydd ac rydym wedi dod i'r casgliad nad ydynt.

Rydym yn prosesu gwybodaeth iechyd os bydd angen i ni wneud addasiad rhesymol i'r broses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr ag anabledd. Gwneir hyn er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau ac i weithredu hawliau penodol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

Yn achos rhai rolau mae disgwyl i Barnardo's chwilio am wybodaeth am gollfarnau a throseddau. Mae angen hyn er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau ac i weithredu hawliau penodol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

Ni fydd Barnardo's yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i unrhyw ddiben heblaw am yr ymarferiad recriwtio rydych wedi ymgeisio amdano.

### **Am ba hyd fyddwn ni'n cadw eich data?**

Bydd gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw am flwyddyn ar ôl cwblhau'r ymarferiad recriwtio, a bydd wedyn yn cael ei dinistrio. Yr eithriad i hyn yw Gogledd Iwerddon lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i gadw'r wybodaeth i ddibenion adrodd ar Gyflogaeth Deg am dair blynedd. Bydd nodiadau cyfweliadau ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu dinistrio ar ôl chwe mis. Rydym yn cadw gwybodaeth ystadegol wedi'u dadbersonoleiddio am ymgeiswyr i'n helpu i fonitro ein gweithgarwch recriwtio, ond ni fydd modd adnabod dim unigolion trwy'r data.

Os byddwch yn creu cyfrif ar ein system recriwtio ar-lein, byddwn yn cadw eich data ar ffeil nes i chi ddileu eich cyfrif, ac wedyn bydd eich data'n cael ei ddileu a'i ddinistrio.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd data personol a gesglir yn ystod y broses recriwtio yn cael ei drosglwyddo i'ch ffeil personél a bydd yn gael ei gadw'n unol â'n polisi cadw.

### **Pwy sydd â mynediad at eich data?**

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fewnol i ddibenion yr ymarferiad recriwtio. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r tîm adnoddau dynol (Pobl) a recriwtio, y cyfwelwyr sy'n rhan o'r broses recriwtio, rheolwyr yn y rhan o'r busnes â'r swydd wag a staff TG os oes angen mynediad at y data i gyflawni eu rolau.

Fel rhan o'r broses recriwtio efallai y bydd angen i ni rannu eich data â thrydydd parti er mwyn gwneud unrhyw wiriadau i'ch cefndir a phrosesau fetio angenrheidiol, fel cysylltu â chyn gyflogwyr / canolwyr i gael geirada; a / neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i wirio cofnodion troseddol. Fel rhan o'r broses recriwtio, byddwn yn datgan yn glir pa wiriadau fydd eu hangen ac ym mha gam o'r broses fyddant yn cael eu gwneud.

### **Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cyflenwi data personol?**

Nid oes ymrwymiad statudol na chontract arnoch i gyflenwi data i ni yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth i Barnardo's, efallai na fyddwn yn gallu prosesu eich cais yn iawn, os o gwbl.

Nid oes ymrwymiad arnoch i roi gwybodaeth i ddibenion monitro cyfle cyfartal ac ni fyddai'n effeithio ar eich cais os byddwch yn dewis peidio â rhoi gwybodaeth o'r fath.

### **Proses benderfynu awtomatig**

Mae rhai o brosesau recriwtio Barnardo's yn gwbl seiliedig ar broses benderfynu awtomatig. Er enghraifft, pan ofynnir i ymgeiswyr gadarnhau bod ganddynt hawl i weithio yn y DU; neu pan fydd ymgeiswyr yn cadarnhau nad ydynt wedi cael eu gwahardd rhag ymgymryd â rolau i weithio mewn gweithgarwch rheoledig; neu a oes gan yr ymgeisydd drwydded yrru lân a dilys pan fydd gyrru'n ofyniad hanfodol ar gyfer y rôl.

Os na fydd ymgeisydd yn gallu cyflawni'r gofynion ni fydd eu cais yn mynd yn bellach. Os byddai ymgeisydd yn dymuno herio unrhyw benderfyniad awtomatig o fewn y broses recriwtio yna dylent gysylltu â'r tîm recriwtio yn y cyfeiriad e-bost: [recruitment.support@barnardos.org.uk](mailto:recruitment.support@barnardos.org.uk)

## 2e Ein cyflogeion cyfredol a chyn gyflogeion, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr

Mae Barnardo's yn casglu ac yn prosesu data personol sy'n gysylltiedig â staff a gwirfoddolwyr er mwyn rheoli'r berthynas waith â chi.

### Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu?

Mae Barnardo's yn casglu ac yn prosesu amrywiaeth o wybodaeth amdanoch sy'n briodol i'r rôl rydych yn ei chyflawni â ni. Bydd hyn yn dibynnu a ydych chi'n aelod cyflogedig o'r staff, yn weithiwr achlysurol ('yn ôl y galw'), gwirfoddolwr, contractwr, gweithiwr asiantaeth neu fyfyrwr, a gall gynnwys:

- Eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn, dyddiad geni a rhywedd;
- Llun ohonoch os ydych chi'n gweithio mewn swyddfa, gwasanaeth neu siop sydd â CCTV (Rydym yn cydymffurfio â Chod Ymarfer CCTV ICO).
- Y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r gwaith rydych yn ei wneud i Barnardo's;
- Manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth, gan gynnwys dyddiadau cychwyn a gorffen gyda chyflogwyr blaenorol ac â ni;
- Gwybodaeth am eich cyflogaeth, gan gynnwys eich hawl i fuddiannau fel pensiynau neu yswiriant marwolaeth mewn gwasanaeth;
- Manylion eich cyfrif banc a'ch rhif yswiriant gwladol;
- Gwybodaeth am eich statws priodasol, eich perthynas agosaf, dibynyddion a chysylltiadau mewn argyfwng;
- Gwybodaeth am eich cenedligrwydd a'ch hawl i weithio yn y DU;
- Gwybodaeth am gofnodion troseddol;
- Gwybodaeth berthnasol os ydych chi'n gyrru cerbyd fflyd, eich cerbyd eich hun i ddibenion busnes neu os byddwn yn llogi car ar eich cyfer;
- Manylion am eich amserlen (dyddiau gwaith ac oriau gweithio) a phresenoldeb yn y gwaith;
- Manylion am gyfnodau absenoldeb, gan gynnwys gwyliau, absenoldeb oherwydd salwch, absenoldeb am resymau teuluol ac absenoldeb estynedig, a'r rhesymau am yr absenoldeb;
- Manylion am unrhyw gamau disgyblu neu gwyno rydych wedi bod yn gysylltiedig â hwy, gan gynnwys unrhyw rybuddion yn eich erbyn a gohebiaeth gysylltiedig;
- Aseidiadau o'ch perfformiad, gan gynnwys arfarniadau, adolygiadau perfformiad, a sgorio, hyfforddiant rydych wedi'i gael, cynlluniau gwella perfformiad a gohebiaeth gysylltiedig;
- Gwybodaeth am gyflyrau meddygol neu iechyd, sy'n cynnwys unrhyw anabledd y bydd angen i'r sefydliad wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer; a
- Gwybodaeth monitro cyfle cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, iechyd a chrefydd neu gred.

### Sut ydym ni'n casglu eich data personol?

Rydym yn casglu eich gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft, efallai eich bod wedi llenwi ffurflen gais, neu wedi cyflwyno CV neu grynoded; efallai eich bod wedi rhoi manylion eich pasbort neu ddogfennau adnabod eraill; o ffurflenni a gwblhawyd gennych chi ar ddechrau neu yn ystod eich gwaith â ni; o ohebiaeth â chi; neu trwy gyfweiliadau, cyfarfodydd neu aseidiadau eraill.

Gallwn hefyd gasglu gwybodaeth amdanoch gan drydydd partiön, fel asiantaethau recriwtio, geirdaon a gafwyd gan gyn gyflogwyr, a gwybodaeth trwy wirio cofnodion troseddol fel a ganiateir gan y gyfraith.

### **Lle fyddwn ni'n cadw eich data?**

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw, yn ddiogel, mewn sawl lle: yn eich ffeil personél (copi caled a ffeil staff electronig), yn ein systemau rheoli adnoddau dynol ac mewn systemau IS eraill (gan gynnwys rhwydwaith mewnol a system e-bost Barnardo's).

### **Pam fod angen eich data personol arnom?**

Mae angen i Barnardo's brosesu eich data i ffurfio perthynas weithio â chi ac i gyflawni ein rhwymedigaethau contract o dan unrhyw gytundeb â chi. Er enghraifft, os ydych chi'n gyflogai mae angen i ni brosesu eich data i lunio contract cyflogi ar eich cyfer, i'ch talu'n unol â'r contract hwnnw ac i weinyddu unrhyw fudd-daliadau.

Mewn rhaid achosion, bydd angen i Barnardo's brosesu data i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol i wirio hawl gweithwyr i weithio yn y DU, i ddiwynu treth, i gydymffurfio â chyfreithiau iechyd a diogelwch ac i alluogi cyflogeion i gymryd cyfnodau o absenoldeb mae ganddynt hawl i'w cymryd. Yn achos rhai swyddi, bydd angen gwirio cofnodion troseddol i sicrhau bod gan unigolion yr hawl i gyflawni'r rôl dan sylw.

Mewn achosion eraill, mae gan Barnardo's fudd cyfreithiol mewn prosesu data personol, cyn, yn ystod ac ar ddiwedd perthynas weithio. Mae prosesu data staff yn galluogi'r sefydliad i:

- Rhedeg prosesau recriwtio a rheoli talent;
- Cadw cofnodion a manylion cyswllt staff yn gywir a chyfoes (gan gynnwys manylion am bwy i gysylltu â hwy mewn argyfwng), a chofnodion contractau a hawliau statudol;
- Gweithredu a chadw cofnod o brosesau disgyblu a chwyno, i sicrhau ymddygiad derbyniol yn y gweithle;
- Gweithredu a chadw cofnod o berfformiad cyflogeion a phrosesau cysylltiedig, a phrosesau rheoli'r gweithlu;
- Gweithredu a chadw cofnod o absenoldeb a gweithdrefnau rheoli absenoldeb, i allu rheoli'r gweithlu'n effeithiol a sicrhau bod cyflogeion yn cael y tâl a'r buddion eraill mae ganddynt hawl i'w cael;
- Cael cyngor ar iechyd galwedigaethol, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â dyletswyddau i unigolion ag anableddau, i gyflawni ei rwymedigaethau o dan gyfraith iechyd a diogelwch, a sicrhau bod gweithwyr yn cael y tâl salwch a'r buddion eraill mae ganddynt hawl i'w cael;
- Gweithredu a chadw cofnodion o fathau eraill o absenoldeb (gan gynnwys absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu ac absenoldeb rhiant a rennir), i allu rheoli'r gweithlu'n effeithiol, i sicrhau bod Barnardo's yn cydymffurfio â dyletswyddau o ran yr hawl i gyfnodau o absenoldeb, ac i sicrhau bod gweithwyr yn cael y tâl a'r buddion eraill mae ganddynt hawl i'w cael;
- Sicrhau bod adnoddau dynol a'r busnes yn gyffredinol yn cael eu gweinyddu'n effeithiol;
- Cyflenwi geirdaon ar gais i gyflogeion cyfredol neu gyn gyflogeion;
- Ymateb i ac amddiffyn hawliadau cyfreithiol;
- Cydymffurfio â'n rhwymedigaethau statudol a rheoliadol; a
- Chynnal a hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle.

Lle mae Barnardo's yn dibynnu ar fudd cyfreithiol fel rheswm i brosesu data cyflogeion, rydym wedi ystyried, trwy gasglu'r data, a yw'r rhesymau hynny'n drech na hawliau a rhyddid yr ymgeisydd ac rydym wedi dod i'r casgliad nad ydynt.

Mae rhai categorïau o ddata personol, fel gwybodaeth am iechyd neu gyflyrau meddygol, yn cael eu prosesu i gyflawni rhwymedigaethau cyfraith gyflogaeth (fel rhai sy'n gysylltiedig â chyflogeion ag anableddau ac i ddibenion iechyd a diogelwch). Mae gwybodaeth am aelodaeth o undeb llafur yn cael ei phrosesu i alluogi Barnardo's i ddiynnu tanysgrifiadau undebau llafur (pan fydd hyn yn cael ei brosesu trwy'r gyflogres).

Pan fyddwn yn prosesu categorïau eraill o ddata personol, fel gwybodaeth am darddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, iechyd neu gred crefyddol, gwneir hyn i ddibenion monitro cyfle cyfartal.

### **Pwy sydd â mynediad at y data?**

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fewnol, ac mae hynny'n cynnwys ei rhannu ag aelodau'r Tîm Pobl (sy'n cynnwys cyflogres), y Tîm Cyllid (sy'n cynnwys y Tîm Pensiynau), y Tîm Eiddo a Chyfleusterau (i ddibenion diogelwch ac yswiriant), eich rheolwr llinell, rheolwyr yn y maes busnes lle'r ydych yn gweithio ac unrhyw aelodau eraill o staff sydd angen mynediad at y data i gyflawni eu rolau.

Mae Barnardo's yn rhannu eich data â thrydydd partïon i gael geiradaon cyn cyflogi gan gyflogwyr eraill ac, os yn berthnasol i'r rôl, i wneud y gwiriadau angenrheidiol i gofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Disclosure Scotland ac AccessNI. Gall Barnardo's hefyd rannu eich data â thrydydd partïon yng nghyd-destun trosglwyddiadau TUPE. Yn yr amgylchiadau hynny bydd eich data'n dod o dan drefniadau cyfrinachedd. Mae'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i blant a phobl ifanc yn amodol ar reoleiddio allanol, felly os ydych chi'n gweithio mewn gwasanaeth bydd eich data'n cael ei rannu ag arolygwyr, a gall data gwasanaeth a gomisiynir gael ei rannu â'r comisiynydd.

Mae Barnardo's hefyd yn rhannu eich data â thrydydd partïon sy'n prosesu data ar ein rhan, mewn cysylltiad â chyflogres, darparu budd-daliadau, darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol, ac archifo data personol oddi ar y safle ar ôl i chi adael cyflogaeth Barnardo's.

Gall Barnardo's drosglwyddo eich data y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd – gweler yr adran Ble rydym ni'n storio ac yn prosesu eich gwybodaeth isod.

### **Am ba hyd fyddwn ni'n cadw eich data?**

Bydd Barnardo's yn cadw eich data personol trwy gydol eich perthynas weithio â ni. Ar ôl diwedd eich perthynas weithio â ni, oherwydd natur y gwaith mae Barnardo's yn ei wneud, ac er mwyn cyflwyni ein hymrwymadau diogelu, gallwn gadw peth o'ch data tan eich pen blwydd yn 75 oed, ond bydd hynny'n dibynnu ar eich rôl.

## **3 Gweithio â Thrydydd Partïon**

Ni fydd Barnardo's byth yn gwerthu eich data personol; fodd bynnag, gallwn rannu eich gwybodaeth â thrydydd partïon er mwyn darparu gwasanaethau i chi. Gall eich data fod ar gael i rai o'r cwmnïau cymorth TG sy'n rheoli'r systemau sy'n bwysig i'r busnes; fodd bynnag, gwneir hyn i ddibenion

cefnogi ein systemau TG yn unig ac mae'n cael ei lywodraethu'n ofalus gan drefniadau ein contractau â hwy.

Rydym yn mynnu bod pob trydydd parti yn parchu diogelwch eich gwybodaeth bersonol ac yn ei thrin yn unol â'r gyfraith. Nid ydym yn caniatáu i'n darparwyr trydydd parti i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol i'w dibenion eu hunain ac rydym yn caniatáu iddynt i brosesu eich gwybodaeth bersonol i ddibenion penodol yn unig ac yn unol â'n cyfarwyddiadau. Mae gweithrediadau rhai o'n partneriaid yn cael eu rhedeg y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a gall hyn gynnwys gwledydd sydd â Deddfau Diogelu Data gwahanol. Er ein bod yn cymryd camau bob amser i wneud yn siŵr bod mesurau diogelu priodol ar waith (yn unol â Deddf Diogelu Data'r DU) a bod yr wybodaeth honno'n cael ei diogelu.

Ac eithrio'r achosion penodol a restrir isod, ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth ariannol â thrydydd parti heb eich cydsyniad penodol chi oni bai bod y gyfraith yn mynnu ein bod yn ei rhannu. Trwy roi rhodd neu brynu nwyddau o'n gwefannau rydych yn cydsynio i'ch gwybodaeth ariannol a / neu bersonol gael ei throsglwyddo i unrhyw sefydliadau trydydd parti angenrheidiol i brosesu eich trafodion â Barnardo's, fel cwmnïau cardiau credyd, banciau a'r cwmnïau sy'n dosbarthu nwyddau ar ein rhan. Byddwn hefyd yn rhannu eich data â HMRC os byddwch yn rhoi caniatâd i ni i hawlio Cymorth Rhodd ar eich rhodd.

Gallwn rannu eich gwybodaeth bersonol ag:

- unrhyw aelod o'n grŵp, sy'n golygu'r elusen gofrestrdedig, ei gwmni daliannol a'i is-gwmnïau, fel a ddiffinnir gan adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau'r DU 2006;
- trydydd partïon dethol, gan gynnwys:
  - Partneriaid busnes, cyflenwyr ac is-gontractwyr i gyflawni unrhyw gontract rydym yn ei lunio â hwy, gan gynnwys:
    - Darparwyr ein siopau ar-lein a'n tudalennau codi arian, eiriolaeth, marchnata e-bost a digwyddiadau;
    - Ein systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid;
    - Systemau archifo a storio;
    - Comisiynwyr, argraffwyr, tai cyflenwi, ffotograffwyr, fideograffwyr, dylunwyr creadigol, asiantaethau creadigol, a darparwyr arolygon ar-lein
    - Yswirwyr, cyfreithwyr, broceriaid, aseswyr colledion, asiantaethau rheoli a landlordiaid
    - Darparwyr buddiannau a phrosesyddion Gwiriadau Cofnodion Troseddol;
  - Darparwyr dadansoddeg a chwilotwyr sy'n ein helpu i wella ac optimeiddio ein safle;
  - Pan fydd dyletswydd arnom i ddatgelu neu rannu eich gwybodaeth bersonol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, neu er mwyn gweithredu ein Telerau Defnyddio a chytundebau eraill, neu i warchod hawliau, eiddo, neu ddiogelwch Barnardo's, ein rhoddwyr, buddiolwyr neu eraill. Mae hyn yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth â chwmnïau a sefydliadau eraill i ddibenion diogelu rhag twyll a lleihau risg i greyd
  - Darpar werthwr neu brynwr ein busnes neu asedau pe baem am werthu neu brynu busnes neu asedau o'r fath, gan gynnwys lle mae Barnardo's neu'r rhan fwyaf o'i asedau'n cael eu caffael gan drydydd parti, pan fyddai data personol yn un o'r asedau a drosglwyddid
  - Yn achos cyflogeion, asiantaethau cyflogres, CThEM, cwmnïau pensiwn, yswiriant, a chyrrff statudol, lle maent wedi'u rheoleiddio gan y gyfraith i wneud hynny.

Byddwn hefyd yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol, a phan fyddwn yn ei rhannu â thrydydd parti byddwn yn gwneud hynny dan gontract yn unig, o dan amodau cyfrinachedd a diogelwch, a dim ond i'r dibenion hynny rydych wedi rhoi'r eich cydsyniad i ni i ddefnyddio'r wybodaeth.

## **Gwefannau Trydydd Parti**

Gall ein gwefannau gynnwys dolenni at wefannau trydydd parti. Mae'r polisi hwn yn y gymwys i'r safle hwn yn unig, felly os byddwch yn dilyn dolen i safle trydydd parti, dylech wneud yn siŵr eich bod yn darllen hysbysiad preifatrwydd y safle hwnnw. Nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am safleoedd trydydd parti.

## **4 Sut ydym ni'n cadw eich data yn ddiogel?**

Rydym yn cymryd diogelwch eich gwybodaeth bersonol o ddifrif. Mae gennym bolisiau, rheolaethau ac arferion casglu, storio a phrosesu data mewnol ar waith i sicrhau nad yw eich data'n cael ei golli, ei ddinistrio ar ddamwain, ei gamddefnyddio na'i ddatgelu, ac mai dim ond ein cyflogeion wrth gyflawni eu dyletswyddau priodol fydd yn cael mynediad ato.

Rydym yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod ein gweithdrefnau diogelwch yn cyflawni'r hyn maent wedi'u creu i'w wneud a bod unrhyw gyfathrebu rhyngoch chi â'n gwefannau wedi'i ddiogelu trwy amgryptio (mae hyn yn golygu bod unrhyw gysylltiadau'n cael eu trosi'n godau ac mai gwefannau Barnardo's yn unig sy'n gallu eu deall, ac sydd felly'n atal pobl heb awdurdod rhag eu gweld). Rydym yn cydweithio'n agos â phrif bartneriaid technegol y diwydiant i wneud yn siŵr bod eich holl wybodaeth bersonol, gan gynnwys data talu, yn saff a diogel.

Rydym yn defnyddio gweithdrefnau caeth a nodweddion diogelwch sy'n cydymffurfio ag ISO 27000 i atal mynediad heb awdurdod at, neu golli data o'n systemau; fodd bynnag, ni allwn warantu diogelwch y data yr ydych yn ei drosglwyddo i'n gwefannau ac felly mae unrhyw drosglwyddo atom yn cael ei wneud ar eich menter eich hun.

Dylech sylweddoli y bydd unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn dewis ei chyhoeddi ar rannau cyhoeddus ein gwefannau'n gallu cael ei darllen, ei chasglu, neu ei defnyddio gan ddefnyddwyr eraill ac y gall negeseuon digymell gael eu hanfon atoch. Nid ydym yn gyfrifol am yr wybodaeth bersonol rydych yn dewis ei gwneud yn gyhoeddus. Hefyd, nid ydym yn gyfrifol am y cynnwys yr ydych yn ei bostio'n gyhoeddus ar y safle y gellir dod o hyd iddo drwy chwilotwyr ar y we.

Lle byddwn wedi rhoi cyfrinair i chi (neu lle'r ydych chi wedi dewis un) sy'n eich galluogi i gael mynediad at rannau penodol o'r safle, rydych yn gyfrifol am gadw'r cyfrinair hwn yn gyfrinachol. Rydym yn gofyn i chi beidio â rhannu'r cyfrinair hwnnw â neb.

## **5 Ble rydym yn storio ac yn prosesu eich gwybodaeth**

Gall yr wybodaeth rydym yn ei chasglu oddi wrthy ch gael ei throsglwyddo i, a'i storio mewn lleoliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ond dim ond pan fyddwn yn fodlon ei fod yn cael ei diogelu'n ddigonol. Gall hefyd gael ei phrosesu gan staff sy'n gweithredu yn y lleoliadau hyn sy'n gweithio i ni neu i'n darparwyr gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys staff sy'n gyfrifol am, ymhlith pethau eraill, lletya'r safle a darparu gwasanaethau cymorth. Trwy gyflwyno eich gwybodaeth bersonol, rydych yn cytuno i'r trosglwyddo, storio neu'r prosesu hwn. Bydd Barnardo's yn cymryd pob cam rhesymol sydd eu

hangen i sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn ddiogel ac yn unol â'r Hysbysiad preifatrwydd hwn.

## **6 Eich Hawliau Cyfreithiol**

O dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), mae gennych chi'r hawliau canlynol:

- a. Yr hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol
- b. Yr hawl i olygu a diweddarau eich gwybodaeth bersonol
- c. Yr hawl i ofyn am i'ch gwybodaeth bersonol gael ei dileu
- d. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol
- e. Yr hawl i wrthwynebu
- f. Yr hawl i gwyno i awdurdod goruchwyllo

Os ydych chi'n dymuno gweithredu eich hawliau, [Cysylltwch â Ni](#), gan gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl am natur eich cysylltiad â ni er mwyn ein helpu i leoli eich cofnodion. Gall unrhyw newidiadau y byddwch yn gofyn i ni eu gwneud gymryd 30 diwrnod i ddod i rym.

### **a Yr hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol**

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich data personol. Trwy wneud cais mynediad gwrthrych i Barnardo's cewch wybod pa ddata personol sydd gennym amdanoch, pam rydym yn ei gadw ac i bwy yr ydym yn eu ddatgelu. Rhaid i gais mynediad gwrthrych fod yn ysgrifenedig, a rhaid iddo gynnwys prawf adnabod – gallwch lawrlwytho ffurflen safonol o'r wefan hon i helpu i wneud y broses yn gyflymach a haws.

E-bost: [dpo@barnardos.org.uk](mailto:dpo@barnardos.org.uk)

Neu ysgrifennwch at:

Martine King  
Data Protection Officer  
Barnardo's  
Tanners Lane  
Barkingside  
Ilford  
Essex  
IG6 1QG

Pan fyddwch wedi cael eich cais, ac wedi cadarnhau eich manylion adnabod, byddwn yn ymateb o fewn 30 diwrnod.

### **b Yr hawl i olygu a diweddarau eich gwybodaeth bersonol**

Mae cywirdeb eich gwybodaeth bersonol yn bwysig i ni. Gallwch olygu eich gwybodaeth bersonol, gan gynnwys eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt ar unrhyw adeg.

### **c Yr hawl i ofyn am i'ch gwybodaeth bersonol gael ei dileu**

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried fesul achos.

#### **d Yr hawl i gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol**

Mae gennych yr hawl i 'flocio' neu wahardd prosesu eich data personol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i storio eich data ond ni fyddwn yn ei brosesu eto. Rydym yn gwneud hyn trwy gadw digon o'ch gwybodaeth bersonol fel y gallwn sicrhau bod eich cais yn cael ei barchu yn y dyfodol. Noder, nid yw hwn yn hawl absoliwt, ac mae'n gymwys mewn amgylchiadau penodol yn unig.

#### **e Yr hawl i wrthwynebu**

Mae gennych hawl i wrthwynebu i'ch gwybodaeth bersonol gael ei phrosesu i ddibenion marchnata (gan gynnwys proffilio) ac ymchwil. O'r ohebiaeth gyntaf gennych ac ym mhob gohebiaeth y byddwn yn ei hanfon atoch wedi hynny bydd gennych yr hawl i wrthwynebu i farchnata.

Neu, gallwch weithredu'r hawl hwn trwy gysylltu â'r Tîm Cysylltiadau Cefnogwyr isod. Dylech anfon ceisiadau at:

Supporter Relations Team  
Barnardo's Tanners Lane Ilford  
Essex  
1G6 1QG

Neu e-bostiwch [supporterrelations@barnardos.org.uk](mailto:supporterrelations@barnardos.org.uk)

Os byddwn yn prosesu eich data personol i weithredu neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol, neu os bydd fod gennym resymau digonol sy'n drech na'ch hawliau a'ch rhyddid efallai na fyddwn yn gallu cyflawni eich cais. Fodd bynnag, byddwn yn cysylltu â chi i drafod y mater ymhellach.

#### **f Eich hawl i gwyno i awdurdod goruchwyllo**

Os ydych chi'n dymuno cwyno neu gael cyngor gan awdurdod goruchwyllo dylech gysylltu â:

The Office of the Information Commissioner  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer SK9 5AF  
Ffôn: +44 (0) 01625 545 745  
Gwefan: [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

## **7 Geirfa**

**Amgryptio** yw'r broses lle mae testun plaen neu unrhyw fath arall o ddata yn cael ei drosi o ffurf darllenadwy i fersiwn wedi'i amgodio a all gael ei ddadgodio gan endid arall dim ond os oes ganddo fynediad at allwedd dadgryptio. Amgryptio yw un o'r dulliau pwysicaf o sicrhau diogelwch data, yn enwedig ar gyfer diogelwch o ddechrau'r broses i'r diwedd ar gyfer data sy'n cael ei drosglwyddo ar draws rhwydweithiau.

**Budd Busnes Cyfreithiol fel sail cyfreithiol** – mae hyn yn golygu buddiannau ein cwmni wrth gyflawni a rheoli ein busnes i'n galluogi ni i roi'r gwasanaeth / nwyddau gorau a'r profiad gorau a mwyaf diogel i chi. Er enghraifft, mae gennym fudd mewn gwneud yn siŵr bod ein marchnata'n berthnasol i chi, fel y gallwn brosesu eich gwybodaeth i anfon marchnata sydd wedi'i deilwra ar gyfer eich diddordebau. Pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ar gyfer ein Buddiannau Cyfreithiol, rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried ac yn cydbwysu unrhyw effaith bosibl arnoch chi (rhai positif a negyddol), a'ch hawliau o dan Gyfreithiau Diogelu Data. Nid yw ein buddiannau busnes cyfreithiol o reidrydd yn drech na'ch buddiannau chi – ni fyddwn yn defnyddio

eich data personol ar gyfer gweithgareddau lle mae'r effaith arnoch chi'n drech na'n buddiannau ni (oni bai ein bod wedi cael eich cydsyniad neu bod y gyfraith yn mynnu neu'n caniatáu fel arall).

**Cais Gwrthrych am Fynediad** yw eich hawl i gael copi o'r wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch.

**Cydsyniad** gwrthrych y data – mae hyn yn golygu bod dymuniadau'r gwrthrych wedi'u mynegi o'u gwirfodd, yn benodol, ar sail gwybodaeth ac yn ddiamwys.

**Cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol neu reoliadol** – mae hyn yn golygu prosesu eich data personol lle mae angen cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol neu reoleiddiol gofynnol, e.e. y Ddeddf Plant, y Ddeddf Ymadawyr Gofal, yn ogystal â gofynion rheoleiddiol o dan CQC a chyrrff ansawdd eraill.

**Data Categori Arbennig** – mae hyn yn golygu data sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur, data genetig, data biometrig i ddibenion adnabod person naturiol, data sy'n ymwneud ag iechyd neu ddata sy'n ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol person naturiol.

**Data Personol** - mae hyn yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â pherson naturiol adnabyddadwy (gwrthrych y data'); person naturiol adnabyddadwy y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol trwy gyfeirio at ddynodwr fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw.

**Deddf Diogelu Data 1998** yw Deddf Senedd y DU a grëwyd i ddiogelu data personol sy'n cael ei storio ar gyfrifiaduron neu mewn system ffeilio bapur ... Mae'r Ddeddf yn diffinio wyth o egwyddorion diogelu data i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei phrosesu'n gyfreithlon. Bydd y gyfraith yn cael ei diweddarau ar ôl i Fil Diogelu Data (2018) gael ei basio.

**Ffugenwol** – mae hyn yn golygu prosesu data personol mewn ffordd na ellir priodoli'r data personol bellach i wrthrych y data heb gael gwybodaeth ychwanegol. Rhaid cadw'r wybodaeth ychwanegol ar wahân.

**Gwneud yn ddienw** yw'r broses o naill ai amgryptio neu dynnu gwybodaeth sy'n galluogi adnabod unigolion o setiau data, fel y bydd y bobl a ddisgrifir yn y data'n anhysbys neu ddienw.

**Mynediad Diawdurdod at Ddata Personol** - mae hyn yn golygu methiant mewn diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, newid, datgelu diawdurdod, neu fynediad damweiniol neu anghyfreithlon at ddata personol sy'n cael ei drosglwyddo, ei storio neu ei brosesu mewn ffordd arall.

**Proffilio** – mae hyn yn golygu unrhyw fath o brosesu data wedi'i awtomeiddio sy'n cynnwys y defnydd o ddata personol i werthuso agweddau personol penodol sy'n gysylltiedig â pherson naturiol, yn benodol i ddadansoddi neu ragweld agweddau sy'n gysylltiedig â sefyllfa economaidd, hoffterau personol, diddordebau a lleoliad person naturiol.

**Prosesydd data** yw'r person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sy'n prosesu data personol ar ran y rheolydd.

**Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)** yw fframwaith cyfreithiol 2018 sy'n gosod canllawiau ar gyfer casglu a phrosesu gwybodaeth personol unigolion yn yr Undeb Ewropeaidd (UE).

**Rheolydd Data** yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae'n ofynnol eu bod yn ei gadw'n ddiogel, yn gwneud penderfyniadau am yr hyn sy'n digwydd i'ch data ac yn atebol os yw'n cael ei golli neu os nad yw'n cael ei gadw'n gyfrinachol.

**Rhestr Eilaidd** yw rhestr sy'n cynnwys cyfeiriadau post neu e-bost nad ydych am gael eu cynnwys mewn gohebiaeth neu negeseuon e-bost sy'n cael eu hanfon gennym.

**Sail Gyfreithiol Tasg Gyhoeddus** – mae hyn yn golygu y gallwn ddibynnu ar y sail gyfreithiol hon os bydd angen prosesu data ‘i gyflawni awdurdod swyddogol’. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau a phwerau cyhoeddus sydd wedi’u cynnwys mewn cyfraith; neu i gyflawni tasg benodol er budd y cyhoedd sydd wedi’i chynnwys mewn cyfraith.

**Taflen Wybodaeth am Wasanaeth** – mae’r rhain yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y data sy’n cael ei brosesu gan Wasanaethau Plant Unigol a Gwasanaethau Llinellau Busnes a roddir i wrthrych y data neu eu rhieni ynghyd â Hysbysiad Preifatrwydd y Gwasanaeth Plant.

**Trydydd Parti** – mae hyn yn golygu person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff heblaw am wrthrych y data, rheolydd, prosesydd y data neu bobl sydd, o dan awdurdod uniongyrchol y rheolydd neu’r prosesydd, wedi eu hawdurdodi i brosesu data personol.